**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | Cyfrifon Terfynol 2023/24 – Alldro Refeniw |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14 Mai 2024 |

## 1. Penderfyniad a geisir

1.1 Derbyn yr adroddiad ac ystyried y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2023/24:

| | *Colofn A* | *Colofn B* | *Colofn C* | *Colofn Ch* |
|---|---|---|---|---|
| | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | **Addasiadau a Argymhellir** | | **Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** |
| | **£ '000** | **£'000** | **£'000** | **£ '000** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3,906 | (3,806) | 0 | 100 |
| Plant a Theuluoedd | 2,611 | (2,511) | 0 | 100 |
| Addysg | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 308 | 0 | (308) | 0 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 687 | (587) | 0 | 100 |
| Amgylchedd | 1,237 | (1,137) | 0 | 100 |
| Tai ac Eiddo | 255 | (155) | 0 | 100 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (11) | 0 | 0 | (11) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (10) | 0 | 0 | (10) |
| Cyllid | (7) | 0 | 0 | (7) |

1.2 Gan nodi bod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, Adran Amgylchedd a'r Adran Tai ac Eiddo eleni (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn **Atodiad 2)** -

- Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario 'mlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn B yn y tabl uchod).

- Cadarnhau y cymorth ariannol o £308k uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach (Gweler colofn C yn y tabl uchod).

- Ar gyllidebau Corfforaethol:
  - defnyddio'r balans o £4,402k sydd ar ôl yn y Gronfa Covid i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
  - defnyddio (£2,091k) o'r tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
  - gweddill y tanwariant o (£495k) ar gyllidebau Corfforaethol i'w drosglwyddo i'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

1.3 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" yn colofn Ch uchod ac yn **Atodiad 1**).

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd:
- cynaeafu (£1,703k) o gronfeydd a'i ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2023/24.
- Defnyddio £2,975k i gyllido bidiau un tro 2024/25 yn dilyn dad ymrwymo £1,113k o'r Gronfa Trawsffurfio a throsglwyddo £1,862k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2023/24 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**, gyda'r symiau i'w cario ymlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2023/24'. Ar ddiwedd y flwyddyn mae pum adran yn gorwario yn sylweddol.

3.2 Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion hynny wedi'u hamlygu er ystyriaeth yn 1.2 uchod.

3.3 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd 2023, rhagwelwyd diffyg o £8.1m. Ers hynny, mae gorwariant gan adrannau'r cyngor wedi cynyddu i £9m. Y prif feysydd gorwariant yw'r maes gofal oedolion, lleoliadau all-sirol plant,

gwastraff a digartrefedd. Mae’r sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 4. Sefyllfa Arbedion

4.1 Yn ystod 2023/24 bu i werth £2 filiwn o gynlluniau oedd â risgiau sylweddol i’w cyflawni cael eu dileu fel rhan o’r Adolygiad Diwedd Awst 2023, roedd gwerth bron i £1.5 miliwn yn berthnasol i’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, a’r gweddill yn yr Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Pheirianneg a’r Adran Tai ac Eiddo.

4.2 Yn dilyn adolygiad o’r sefyllfa arbedion, ymddengys fod dros £39 miliwn, sef 96% o’r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

## 5. Adrannau’r Cyngor

5.1 Mae’r prif faterion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

5.2 **Adran Oedolion Iechyd a Llesiant**
Gwelwyd leihad yn y gorwariant i £3.9 miliwn o’i gymharu â’r £5.4 miliwn oedd y cael ei ragweld yn adolygiad Tachwedd. Ers yr adolygiad diwethaf bu i’r adran dderbyn grantiau ac incwm sydd wedi cynorthwyo’r sefyllfa. Ond, pwysau cynyddol a chostus llety cefnogol yn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn gyfrifol am £1.8m o'r gorwariant. Yn y maes Gofal Cartref, mae costau staffio uwch a lefelau salwch a chyfraddau oriau digyswllt yn uchel, tra bod pwysau ar gyllideb darparwyr gofal catref preifat wrth symud i’r model darparu newydd yng ngwasanaethau Pobl Hŷn.

O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bu i'r Prif Weithredwr gomisiynu gwaith yn gynharach yn y flwyddyn i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal Oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r materion a chreu rhaglen glir i ymateb. Mae'r gwaith wrthi'n cael sylw ac yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyda bwriad i adrodd ar y canfyddiadau yn fuan.

5.3 **Adran Plant a Theuluoedd**
Ers adolygiad Tachwedd mae gorwariant yr Adran wedi cynyddu o £1.3 miliwn i £2.6 miliwn, gwelwyd cynnydd yng nghostau lleoliadau all-sirol oherwydd cymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol ddiweddar o leoliadau heb eu cofrestru, sydd fwy costus. Pwysau hefyd i’w weld ar gyllideb y Gwasanaeth Derwen ac ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol a gweithwyr maes.

5.4 **Adran Addysg**
Y tueddiad o bwysau cynyddol ar y gyllideb tacsis a bysus ysgolion yn parhau gyda gorwariant o £1.5m ar ddiwedd y flwyddyn. Ond trosiant staff, derbyniad incwm a grantiau ynghyd â llai o bwysau ar gyllidebau eraill yn lleihau’r gorwariant adrannol i £95k. Er mwyn diddymu'r gorwariant o £95k mae'r adran yn defnyddio £95k o'u cronfa tanwariant adrannol.

5.5 **Byw'n Iach**
Yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Gwmni Byw'n Iach uwchlaw taliad cytundebol y contract ddarparu, er mwyn galluogi Byw'n Iach i gynnal eu gwasanaethau a pharhau'n hyfyw fel cwmni. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni, ond mae'r swm gofynnol wedi lleihau i £308k.

5.6 **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC**
Gorwariant o £687k gan yr adran o ganlyniad i bwysau ar y gyllideb cynnal ffyrdd a goleuo a lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm priffyrdd. Yn y meysydd bwrdeistrefol, mae pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff, a cholled incwm, yn ffactorau yn glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus.

5.7 **Adran Amgylchedd**
Y tueddiad o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau ac yn £1.2m erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ychwanegol i hyn, nid yw'r incwm parcio gystal â'r rhagolygon, gyda diffyg o £601k. Tanwariant ar Warchod y Cyhoedd a Rheolaeth Rhwydwaith Trafnidiaeth ynghyd â defnydd o gronfa tanwariant yn lleihau'r gorwariant adrannol a adroddir i £1.2m.

5.8 **Adran Tai ac Eiddo**
Y tueddiad o bwysau sylweddol ar wasanaethau llety dros dro digartrefedd yn parhau i fod yn ddwys iawn ac yn gorwario £2m er bod cyllideb ychwanegol o £3m o bremiwm treth cyngor a grant o £597k gan y Llywodraeth wedi ei ddyrannu i'r maes. Mae'r defnydd o ddyraniad un tro £1.4m o ddarpariaeth covid corfforaethol a chronfa tanwariant adrannol yn lleihau'r gorwariant a adroddir ar gyfer yr adran i £255k.

Bu gorwariant o £701k ar y gyllideb cynnal a chadw refeniw corfforaethol yn ystod 2023/24, mae cronfa penodol yn ei le i ymdrin a'r gwariant yn y maes yma.

5.9 **Corfforaethol**
Mae tanwariant ar benawdau corfforaethol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2023/24 a lleihad yn y niferoedd sydd wedi hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. O ran treth cyngor gwelwyd lleihad o 239 yn y nifer o ail gartrefi sydd yn destun premiwm yn ystod y flwyddyn, ynghyd â 193 o eiddo yn trosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig. Mae effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wedi arwain at dderbyniad llog ychwanegol. Nid oedd y pwysau ar nifer o gyllidebau cymaint â'r hyn a ragwelwyd.

5.10 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, a cheisir penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna pum cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol ar gau 2023/24.

5.11 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2023/24 yn unig.

5.12 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r cyllidebau sydd dan bwysau yng nghylch cyllidebu 2024/25, ac mae nifer o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2024/25 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

## 6. Ysgolion

6.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi gweld gostyngiad o £3.4m, gan leihau o £11.9m yn 2022/23 i £8.5m yn 2023/24. Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol ym malansau ysgolion yn sgil effaith Covid a derbyniad grantiau sylweddol, ond eu bod bellach yn lleihau, gyda rhagolygon o leihad pellach erbyn diwedd 2024/25 ac yn ôl i lefelau arferol. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

6.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

6.3 Mae tair ysgol gynradd a tair ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid perthnasol hefyd yn sicrhau y bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

## 7. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

7.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un tro ar nifer o benawdau'r gyllideb gorfforaethol eleni, fel y nodir yn 5.9 uchod, a rhan olaf **Atodiad 2**.

7.2 Adroddir ar danwariant o £2,586k ar benawdau Corfforaethol. Awgrymir fod y tanwariant yma ynghyd â £4,402 sydd ar ôl yn y gronfa adfer yn sgil Covid yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2023/24.

7.3 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Fel yr amlinellir yn **Atodiad 3,** llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £1,703k o adnoddau. Hefyd, dad ymrwymwyd gwerth £1,113k o'r gronfa trawsffurfio i'w ddefnyddio i gyllido bidiau un tro 2024/25, felly cynaeafu cyfanswm o £2,816k. Ymhellach, fel rhan o'r adolygiad cronfeydd, mae angen trosglwyddiad o £1,862k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Trawsffurfio i gyllido'r bidiau un tro 2024/25 o £6,508k a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 12 Mawrth 2024.

7.4 O ystyried y sefyllfa gorwariant gan rai o'r adrannau, ystyrir ei bod yn briodol fod y £1,703k o'r cynaeafu cronfeydd yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol eleni.

7.5 Awgrymir fod gweddil y tanwariant o £495k ar benawdau corfforaetholyn cael ei drosglwyddo i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

## 8. Casgliad

8.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol ac ar wariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2023/24. Adroddir ar sefyllfa gorwariant o £9m gan yr adrannau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd yn cael ei leihau gan danwariant o £2.6m ar gyllidebau corfforaethol i roi gorwariant net o £6.4m ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

## 9. Camau nesaf ac amserlen

9.1 Byddwn yn ystyried y wybodaeth gan adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

9.2 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod a'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

9.3 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2023/24 i'w hardystio gan y Pennaeth Cyllid o fewn yr amserlen statudol. Bydd yr adroddiad alldro yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Mai.

## 10. Sylwadau Swyddogion Statudol

10.1 **Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

10.2 **Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - Prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd